



Open Doors
Drysau Agored

Materion Cyffredin A Sut I'w Goresgyn: *Canllaw I Denantiaid Preifat*





Open Doors
Drysau Agored

www.opendoors.wales

opendoors@taipawb.org

Tai Pawb, Tŷ Norbury, Heol Norbury, Caerdydd, CF5 3AS

Cynnwys

- 4 Cyflwyniad i faterion cyffredin
- 5 Materion cyffredin i bobl LGBT+
- 8 Materion cyffredin i bobl anabl
- 11 Materion cyffredin i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl
- 14 Materion cyffredin i bobl sy'n hawlio budd-daliadau
- 16 Materion cyffredin i grwpiau Duon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- 19 A yw fy awdurdod lleol yn gallu helpu gyda phroblem tai?



Cyflwyniad i faterion cyffredin

O bryd i'w gilydd, gall pob tenant sy'n byw yn y sector tai rhent preifat gael problemau gyda'u cartref, eu landlord neu eu hasiant gosod, neu eu cymdogion. Yn anffodus, mae tenantiaid preifat o gefndiroedd amrywiol yn fwy tebygol o wynebu problemau penodol sy'n ymwneud â'u tenantiaeth oherwydd pwy ydyn nhw.

Rydym wedi creu'r canllaw byr hwn er mwyn ystyried rhai o'r materion cyffredin y mae tenantiaid o grwpiau penodol yn eu hwynebu. Ni fydd yr holl faterion yn ymwneud â gwahaniaethu mewn ffordd uniongyrchol. Yn ogystal, efallai y bydd tenantiaid nad ydynt yn perthyn i grŵp penodol yn wynebu nifer fawr o'r materion y cyfeirir atynt. Rydym wedi creu canllaw mwy o faint hefyd sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch gwahaniaethu a sut i'w herio.

Fe'ch anogwn i fanteisio ar y cyngor a roddir ond hefyd, fe'ch anogwn i gysylltu â'r gwasanaethau cymorth a restrir ac wrth gwrs, mae hynny yn cynnwys cysylltu â ni yma yn Drysau Agored.

Mae Drysau Agored yn brosiect dwy flynedd a ariannir gan y Loteri Fawr ac sy'n gweithio gyda landlordiaid a thenantiaid yn y sector tai rhent preifat er mwyn ceisio lleihau gwahaniaethu a chamdriniaeth. Rydym yn gweithio yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr ar hyn o bryd.

Prosiect Drysau Agored

c/o Tai Pawb, Tŷ Norbury,
Heol Norbury, Caerdydd, CF5 3AS



www.facebook.com/OpenDoorsTP



[@OpenDoorsTP](https://twitter.com/OpenDoorsTP)



opendoors@taipawb.org.uk



07388 220388

Materion cyffredin i bobl LGBT+

Mae digwyddiadau a throseddau casineb yn broblem gyffredin i bobl yn y gymuned LGBT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) ac yn aml, gallant ddigwydd yn y cartref neu gerllaw y cartref. Mae nifer o bobl yn dewis peidio adrodd am yr achosion hyn oherwydd eu bod yn ofni gwaethygu'r sefyllfa neu y byddant hyd yn oed yn colli eu cartref.

Er mwyn helpu i newid hynny, rydym wedi mynd ati i nodi rhai o'r problemau cyffredin a'r hyn i'w wneud os ydych yn dioddef y rhain.

Aflonyddu a Throseddau Casineb gan Gymydog

"Dros y mis neu ddau ddiwethaf, mae fy mywyd i wedi bod yn uffernol oherwydd fy nghymdogion i. Yn ddiweddar, roeddem wedi ffraeo oherwydd sŵn uchel ac ers hynny, maent wedi bod yn taflu ysbwriel i'm gardd ffrynt, gan weiddi arnaf a galw enwau arnaf oherwydd fy mod yn rhywun trawsrywiol. Rydw i eisiau gadael, ond nid yw fy nhenantiaeth yn dod i ben am 6 mis arall, beth allaf ei wneud?"

Sam, tenant trawsrywiol.

Mae digwyddiadau anghyfeillgar a/neu ddigwyddiadau treisgar oherwydd y ffaith eich bod yn unigolyn trawsrywiol yn ddigwyddiadau casineb trawsffobig. Weithiau, gellir dosbarthu rhywbeth fel digwyddiad casineb os ydych o'r farn ei fod wedi cael ei gyflawni oherwydd gelyniaeth neu ragfarn tuag atoch chi fel unigolyn. Gall digwyddiadau casineb ddigwydd unrhyw le, ond gallant fod yn frawychus iawn pan fyddant yn digwydd yn eich cartref neu gerllaw eich cartref.

Dosbarthir digwyddiadau casineb sy'n droseddau, yn droseddau casineb.

Mae Sam yn teimlo ei fod wedi cael ei dargedu'n benodol oherwydd y ffaith ei fod yn drawsrywiol. Os ydych chi mewn sefyllfa debyg i Sam, dyma'r hyn y gallwch ei wneud:

1. Adroddwch am y digwyddiad i'r heddlu a dywedwch wrthynt eich bod yn teimlo fel pe baech yn cael eich targedu'n benodol oherwydd pwy ydych chi. Gan ddibynnu ar natur frys y sefyllfa, ffoniwch 101 neu 999.
2. Os nad ydych yn siŵr a yw'r digwyddiad yn ddigon difrifol i'r heddlu ymyrryd, mae'n well adrodd amdano o hyd, yn enwedig os ydych yn cael eich targedu dro ar ôl tro gan yr un grŵp o bobl. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth well i'r heddlu o'r hyn sy'n digwydd i chi.
3. Siaradwch â'ch landlord neu'ch awdurdod lleol i weld a ydynt yn gallu gweithredu dan eu pwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gellir gweld rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol [yma](#). Neu, gallwch ffonio eich awdurdod lleol am gymorth.

Gwahaniaethu Uniongyrchol

"Roedd fy ngwraig a mi yn chwilio am le i'w rentu oherwydd ein bod yn cael rhai problemau gyda'n landlord ar y pryd. Buom yn gweld fflat dwy ystafell wely hyfryd mewn ardal nad oeddem yn gyfarwydd iawn â hi. Pan holom yr asiant am yr ardal leol, dywedwyd wrthym i beidio gwneud cais am yr eiddo gan bod yr ardal yn 'lle cyffredin sy'n addas i deuluoedd' ac y gallai cael pâr lesbiaidd yn byw yn yr ardal beri gofid i'r cymdogion. Roedd hyn wedi gwneud dolur mawr i mi ac i'm gwraig ac roeddem yn teimlo'n annifyr iawn."

Lizzie, an LGBT tenant.

If this happens to you then you can do the following:

- 1) Yn y lle cyntaf, dylech fynegi cwyn anffurfiol i'r landlord neu'r asiantaeth gosod. Ceisiwch siarad gyda'ch landlord neu'ch asiantaeth gosod os ydych yn teimlo eich bod wedi bod yn destun gwahaniaethu. Esboniwch eich rhesymau pam eich bod yn teimlo eich bod wedi cael eich trin yn waeth neu mewn ffordd annheg.
2. Os na fyddwch yn gallu datrys y mater mewn ffordd anffurfiol, efallai y bydd angen i chi fynegi cwyn

ffurfiol. Fel arfer, bydd hyn yn golygu y bydd angen i chi anfon llythyr sy'n nodi manylion eich pryderon at y landlord neu'r asiantaeth gosod. Yn gyffredinol, rhaid i chi sicrhau eich bod yn nodi'r wybodaeth ganlynol yn y llythyr.

- Dyddiad y digwyddiad(au).
 - Disgrifiwch yr hyn a ddigwyddodd a'i effaith arnoch chi. Meddyliwch ynghylch pam, ble a sut. Byddwch yn benodol ac yn glir.
 - Esboniwch y camau yr ydych chi wedi'u cymryd (yn fanwl) er mwyn ceisio datrys y broblem mewn ffordd anffurfiol.
 - Esboniwch yr hyn yr hoffech ei weld yn digwydd nesaf, fel ymddiheuriad, newid mewn polisi ac ati.
 - Dylech gadw copi o'r llythyr a chael derbynneb ar gyfer y trefniant postio pan fo modd.
3. Os byddwch yn anfodlon â'r ymateb o hyd, efallai y byddwch yn gallu gwneud hawliad cyfreithiol, fodd bynnag, fe'ch cynghorir bob tro i geisio cyngor cyn dilyn y trywydd hwn.

Ceisiwch gysylltu â **Chyngor ar Bopeth** am ragor o gymorth.

Sefydliadau Defnyddiol

Llamau yw'r brif elusen yng Nghymru sy'n cynorthwyo'r bobl ifanc a'r menywod mwyaf agored i niwed er mwyn atal digartrefedd.

Gellir cysylltu â nhw ar **029 2023 9585**.

Mae **Stonewall Cymru** yn ymgyrchu dros gydraddoldeb ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ar draws Prydain.

Gellir cysylltu â nhw ar **08000 50 20 20** neu cymru@stonewallcymru.org.uk.

Mae **Cymorth i Ddiodefwyr** yn darparu cyngor cyfrinachol ac am ddim i unrhyw un y mae troseddu yn effeithio arnynt.

Gellir cysylltu â nhw ar **0300 303 0161** neu gallwch ofyn am gymorth ar eu gwefan.

Materion cyffredin i bobl anabl

Mae byw mewn llety addas yn hollbwysig ar gyfer ein lles a'n gallu i fyw bywyd annibynnol. Er mwyn sicrhau na fydd pobl anabl yn wynebu rhwystrau pan fyddant yn byw yn y sector tai rhent preifat, mae gan landlordiaid ac asiantau gosod ddyletswydd dan y Ddeddf Cydraddoldeb i ddarparu **addasiadau rhesymol** lle bynnag y bo modd. Os na fydd eich landlord neu'ch asiantaeth gosod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, byddai modd dosbarthu hyn fel math o wahaniaethu. Rydym wedi mynd ati i nodi rhai o'r problemau cyffredin y mae pobl anabl sy'n byw yn y sector tai rhent preifat yn eu hwynebu, ynghyd â chyingor ynghylch sut i'w goresgyn.

Beth mae modd i mi ofyn amdano fel tenant anabl?

"Rydw i'n denant preifat sy'n byw gyda fy mhartner mewn fflat ar y llawr gwaelod a reolir gan gwmni rheoli preifat. Hysbyswyd fy mhartner o'r ffaith ei fod yn gymwys i fanteisio ar gar arbenigol er mwyn ei helpu i deithio gan bod ganddo broblemau symudedd difrifol. Rydym wedi cael gwybod bod y car yn fawr ac y byddai angen bae parcio car anabl arbenigol arno, ond yn anffodus, dim ond baeau parcio bach sydd ar gael y tu allan i'n fflat. Beth allwn ni ei wneud?"

Lesley, tenant preifat.

Os ydych chi'n dioddef problem debyg, gallwch gymryd y camau canlynol:

Gan ddibynnu a oes parcio preifat ar gael, efallai y byddwch yn gallu gofyn am faes parcio car anabl ar eich cyfer chi a'ch partner. Os mai dim ond lleoedd parcio ar y stryd sydd ar gael, efallai y

byddwch yn gallu gofyn am le gan yr awdurdod lleol.

Os hoffech wneud cais ac os ydych yn byw yng:

Nghaerdydd, cliciwch **yma**.

Bro Morgannwg, cliciwch **yma**.

Nid yw Merthyr Tudful yn cynnig unrhyw ddarpariaeth ar gyfer baeau parcio i'r anabl y tu allan i gartref rhywun ar hyn o bryd, ond efallai y byddant yn gallu helpu o hyd. Am ragor o wybodaeth, cliciwch **yma**.

Fel rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb, rhaid i landlordiaid ac asiantau gosod gydymffurfio â'u dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Mae hyn yn golygu, os bydd rhywun yn gofyn am addasiad, rhaid i'r landlord neu'r asiantaeth ei ystyried a'i ddarparu, os bernir bod hynny'n rhesymol. Os byddwch yn gwneud cais ac os bydd y landlord neu'r asiantaeth yn gwrthod, rhaid iddynt gynnig rheswm cyfreithlon dros wrthod.

Pa fathau o bethau y dylai fy landlord neu fy asiantaeth gosod eu hystyried?

Wrth ystyried cais am addasiad rhesymol, rhaid i'ch landlord neu'ch asiantaeth ystyried sawl peth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Eich nam a sut y mae'ch sefyllfa fyw bresennol neu gymalau penodol mewn cytundeb tenantiaeth yn effeithio arnoch
- Ai'ch cais chi yw'r un mwyaf rhesymol ac a oes modd sicrhau dewisiadau amgen
- Pa fath o denantiaeth sydd gennych chi
- Faint o waith y byddai hyn yn ei olygu a phwy fyddai'n talu

Am wybodaeth bellach am addasiadau rhesymol, cliciwch [yma](#).

Pwy sy'n talu am addasiadau rhesymol?

"Rydw i wedi gofyn i'm landlord osod cawod cerdded i mewn iddi yn hytrach na bath oherwydd fy mod yn ei chael hi'n anodd mynd i mewn ac allan o'r bath oherwydd fy nghyflyrau iechyd. Roedd fy landlord wedi cytuno i ddechrau, nes i mi ddweud wrtho na allwn i fforddio ei wneud fy hun, ac y byddai angen iddo ef dalu amdano. Nawr mae'n dweud, os wyf yn dymuno cael cawod cerdded i mewn, y bydd yn rhaid i mi dalu amdani. Beth allaf i ei wneud?"

Weithiau, ni fydd landlordiaid ac asiantau yn ymwybodol o'r ffaith bod

grantiau ar gael iddynt eu defnyddio er mwyn sicrhau bod cartref yn fwy hygyrch i denantiaid anabl. Mae cynlluniau ar gael sy'n gallu eich cynorthwyo chi a'ch landlord os bydd angen gwneud addasiadau.

Yng Nghymru, ceir grant o'r enw y **Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)** y gellir ei ddefnyddio er mwyn eich helpu i dalu'r gost o addasu eich cartref fel eich bod yn gallu parhau i fyw yno. Mae'r grant hwn ar gael i berchnogion, landlordiaid a thenantiaid, ar yr amod bod rhywun yn byw yn yr eiddo sy'n anabl, a'r eiddo yw eu prif gartref. Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar y gwaith y bydd angen ei wneud. Mae'n syniad da trafod hyn gyda'ch awdurdod lleol.

Yn yr achos arbennig hwn, mae'n debygol na fyddai'n cael ei ystyried yn rhesymol i'r landlord wneud yr addasiad penodol hwn a thalu amdano. Hyd yn oed os byddai'r costau yn cael eu talu ac y byddai'r addasiad yn cael ei drefnu gennych chi, byddai ganddynt yr hawl i wrthod rhoi eu caniatâd os bydd ganddynt reswm ddigon da dros wneud hynny (er enghraifft, gwneud newidiadau strwythurol neu newidiadau mawr i'r eiddo). Os ydych o'r farn na ddylai landlord fod wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i addasiad, gallwch ofyn i'r llys sirol wneud penderfyniad am hyn.

Os byddwch yn troi at eich landlord ac yn gofyn am addasiadau yn eich cartref, ac maen nhw yn gofidio am y costau, holwch a fyddent yn ystyried gwneud cais am y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

A yw landlord neu asiantaeth gosod yn gallu newid polisi neu arfer?

"Rydw i wedi dod o hyd i le hyfryd i'w rentu ac rydw i'n teimlo'n gyffrous iawn ynghylch bod yn denant. Nid ydw i fyth wedi byw bywyd annibynnol o'r blaen, felly rydw i'n hapus iawn ond hoffwn sicrhau fy mod yn ymwybodol o'm cyfrifoldebau a'r hyn yr wyf yn cytuno iddo. Rydw i wedi cael cytundeb tenantiaeth i'w lofnodi, ond ni allaf ei ddarllen oherwydd fy nyslecsia. Beth allaf ei wneud?"

Rehanna, tenant preifat.

Os oes cyflwr sydd gennych chi yn eich atal rhag troi at a deall gwybodaeth a ddarparir gan eich landlord neu asiant gosod, mae gennych yr hawl i ofyn am addasiad rhesymol.

Sefydliadau Defnyddiol

Mae Advocacy Matters yn darparu eiriolaeth annibynnol i oedolion sydd ag anableddau dysgu a/neu gyflyrau ar y sbectrum awtistiaeth.

Gellir cysylltu â nhw ar **029 20 233 733** neu thrwy anfon e-bost at info@advocacymatterswales.co.uk.

Mae'r Prosiect Cyngor Anabledd yn darparu cyngor a gwybodaeth i bobl anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Gellir cysylltu â nhw ar **01633 485 865** neu ar info@dapwales.org.uk.

Mae addasiadau rhesymol yn perthyn i ddau gategori fel arfer:

1. Newid polisi neu arfer
2. Darparu cymhorthion, addasiadau neu wasanaethau ychwanegol

Mae gennych yr hawl i ofyn am addasiad rhesymol ar unrhyw adeg yn ystod y denantiaeth gan gynnwys y cyfnod cyn-denantiaeth. Rhaid i'r landlord neu'r asiant ystyried eich cais ac os gwrthodir eich cais, rhaid i'r rheswm dros wrthod fod yn gyfreithlon ac mae'n rhaid i chi gael esboniad llawn ohono.

Yn y sefyllfa hon, pe baech yn gofyn i'r landlord neu'r asiant gosod am ffurflen sain o'r cytundeb tenantiaeth, dylai hynny fod yn rhesymol. Efallai y bydd hyn yn angenrheidiol hefyd os byddai'n well gennych chi gael copi o'r denantiaeth mewn iaith arall, megis y Gymraeg.

Gall Grant Cyfleusterau i'r Anabl helpu i dalu'r costau o addasu eich cartref. I wneud cais, rhaid i chi gysylltu â'ch cyngor lleol neu droi at eu gwefan.

Mae Scope yn elusen cydraddoldeb anabledd sy'n cynnig cyngor ymarferol a chymorth emosiynol i unrhyw un y mae gofyn iddynt gael help.

Gellir cysylltu â nhw ar **0808 800 3333** neu thrwy anfon e-bost at helpline@scope.org.uk.

Materion cyffredin i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl

Mae cael 'cartref' yn golygu mwy na chael to dros ein pennau. Mae cael rhywle i'w alw yn gartref yn hanfodol i bawb er mwyn byw bywyd iach a chytbwys. I'r rhai hynny ohonom sydd â chyflwr iechyd meddwl, mae cartref yn hanfodol i'n hadferiad ac er mwyn i ni gadw'n dda. Rydym wedi nodi rhai materion cyffredin y mae tenantiaid sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn eu hwynebu, ynghyd â rhywfaint o gyngor er mwyn eich helpu i'w goresgyn.

Eiddo mewn cyflwr gwael yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl?

"Mae'r system wresogi yn fy eiddo wedi torri ers dau fis. Dywedais wrth fy landlord, a ddywedodd y byddai'n ei drwsio yn syth, ond nid ydw i wedi clywed wrtho ers sawl wythnos. Bob tro y byddaf yn ei ffonio, bydd yn mynd i'r cyfleuster gadael neges llais. Rydw i wedi ceisio anfon llythyr hyd yn oed, ond nid oes unrhyw beth yn gweithio.

Mae straen y sefyllfa wedi arwain at fy mhyliau o banig ac rydw i'n teimlo'n gaeth nawr, ac nid ydw i'n gwybod beth i'w wneud. Ni allaf fforddio trwsio'r broblem fy hun"

Weithiau, gall cyflwr eich cartref effeithio ar eich iechyd meddwl. Os ydych yn rhentu cartref gan landlord neu asiantaeth gosod, eu cyfrifoldeb nhw yw gwneud gwaith mawr a gwaith cynnal a chadw fel arfer, yn ystod y cyfnod pan fyddwch chi'n byw yn yr eiddo. Dylai'ch landlord neu'ch asiantaeth gosod ddelio â phethau fel lleithder a malltod du, draenio, gwaith trwsio strwythurol a phroblemau gyda'r system wresogi.

Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu eich landlord neu'ch asiant cyn gynted ag y byddwch yn darganfod problem. Mae hyn yn caniatáu iddynt drefnu bod y gwaith trwsio yn cael ei wneud.

Ceir safonau penodol y gall pob tenant eu disgwyl pan fyddant yn byw mewn cartref y maent yn ei rentu yn breifat. Er enghraifft, mae gan eich landlord ddyletswydd i sicrhau bod yr eiddo yr ydych yn byw ynddo yn ddiogel ac yn rhydd rhag peryglon iechyd. Yn ogystal, rhaid iddynt sicrhau bod yr holl offer nwy a thrydanol yn ddiogel a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw a bod yr eiddo yn bodloni'r gofynion diogelu rhag tân. Os nad yw'ch eiddo yn bodloni'r amodau hyn, gallwch wneud cwyn i'r tîm Iechyd yr Amgylchedd yn eich awdurdod lleol.

Ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, cliciwch [yma](#).

Ar gyfer Merthyr Tudful, cliciwch [yma](#).

Os nad yw'ch landlord neu'ch asiant yn ymateb mewn ffordd amserol, gallwch gael cymorth gan sefydliadau megis Shelter Cymru a Chyngor ar Bopeth, (gweler Cysylltiadau Defnyddiol)

Treulio cyfnod yn yr Ysbyty

"Rydw i wedi cael argyfwng iechyd meddwl yn ddiweddar, a bu'n rhaid i mi dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Nid ydw i'n gwybod pryd y byddaf yn ddigon da i fynd gartref. Rydw i'n pryderu am y cam o ddweud wrth fy landlord, ond mae gennym archwiliad o'r cartref ymhen ychydig ddiwrnodau, ac rydw i eisoes wedi dweud y byddaf i yno. Os byddaf yn dweud wrthynt fy mod yn yr ysbyty, rydw i'n ofni mai dyma fydd ei diwedd hi, ac y byddant yn ceisio fy nhroi allan o'r eiddo. Nid ydw i'n gwybod beth i'w wneud."

Pan fyddwn yn cael argyfwng iechyd meddwl, efallai mai'r lle gorau i ni fod yw yn yr ysbyty. Os ydych chi'n rhentu gan landlord preifat neu asiant gosod, efallai y bydd angen i chi ddweud wrthynt eich bod yn absennol o'r eiddo, os yw hyn am gyfnod estynedig.

Weithiau, os bydd tenantiaid i ffwrdd o'r eiddo am gyfnod estynedig, efallai y bydd y landlord yn credu eu bod wedi gadael yr eiddo. Gallai dweud wrth eich landlord eu sicrhau nad ydych chi wedi gadael eich cartref, ac efallai yr hoffech fwrw golwg dros eich cytundeb tenantiaeth hefyd, oherwydd efallai ei fod yn cynnwys amodau am hyd y cyfnod y gallwch adael eich eiddo yn wag.

Os ydych chi'n hawlio budd-daliadau, mae'n bwysig hefyd eich bod yn hysbysu DWP, oherwydd efallai y byddant yn rhoi gordaliad i chi, a allai beri problemau ariannol i chi pan fyddwch yn gadael yr ysbyty. Mae'n bwysig hefyd eich bod yn dweud wrth eich cyngor lleol. Os nad ydych yn teimlo'n ddigon da i wneud hyn, gallech ofyn i weithiwr gofal iechyd proffesiynol fel nyrs neu feddyg, ac mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gan wardiau gynghorwyr budd-daliadau sy'n ymweld yn rheolaidd er mwyn cynorthwyo cleifion. Efallai y byddant yn gallu dweud wrth eich landlord, DWP a'r awdurdod lleol.

Os ydych yn gofidio am ymateb eich landlord i'r ffaith eich bod yn yr ysbyty, dylech geisio cymorth lleol, a chofiwch ei bod yn anghyfreithlon eich trin mewn ffordd annheg oherwydd eich cyflwr iechyd meddwl. Os bydd eich landlord yn eich trin mewn ffordd annheg oherwydd eich cyflwr iechyd meddwl, gellid dadlau mai gwahaniaethu yw hwn, ac rydych yn cael eich diogelu rhag hyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Sefydliadau Defnyddiol

Mae Gofal yn darparu amrediad o wasanaethau er mwyn helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gynorthwyo'u hannibyniaeth a'u hadferiad.

Gellir cysylltu â nhw ar **01656 647 722** neu enquiries@gofal.org.uk.

Mae Mind Cymru yn darparu cyngor a chymorth er mwyn grymuso unrhyw un sydd â phroblem iechyd meddwl.

Gellir cysylltu â nhw ar **0300 123 3393** neu thrwy anfon neges destun at **86463**. Neu, gallwch anfon e-bost at info@mind.org.uk.

Os oes gofyn i chi gael cymorth iechyd meddwl arbenigol, efallai ei bod hi'n werth droi at [y dudalen hon am fwy o wybodaeth](#). Mae gwasanaethau iechyd meddwl ar gael yn rhad ac am ddim gan GIG, ond bydd angen i'ch Meddyg Teulu eich cyfeirio at arbenigwr. Os ydych yn cael argyfwng iechyd meddwl, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu i drefnu apwyntiad brys. Yn ogystal, efallai yr hoffech siarad gyda [Samaritans Cymru](#) ar 111 123, y maent ar gael 24 awr y dydd, bob dydd.

Materion cyffredin i bobl sy'n hawlio budd-daliadau

Dim DSS

"Rydw i wedi bod yn chwilio am le addas i'w rentu ers cryn amser, ond rydw i'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i unrhyw beth. Ni fydd braidd unrhyw landlordiaid ac asiantau gosod yn rhentu i bobl ar fudd-daliadau. Rydw i'n fam sengl a dim ond gwaith rhan-amser y gallaf ei wneud gan mai fi yw prif ofalwr fy mhlant. Rydw i'n dibynnu ar fy mudd-daliadau er mwyn fy helpu i fyw, ond nid yw hi'n ymddangos bod y landlordiaid a'r asiantaethau gosod yr wyf wedi bod yn siarad â nhw yn becco."

Fatima, mam sengl sy'n chwilio am eiddo i'w rentu yn breifa.

Menywod yw mwyafrif y rhieni sengl sy'n cael budd-daliadau, sy'n golygu y bydd unrhyw waharddiadau cyffredinol ar rentu i denantiaid sy'n cael budd-daliadau yn cael effaith waeth ar fenywod na dynion. Byddai modd dadlau bod hyn yn cyfateb â gwahaniaethu ar sail rhyw mewn ffordd anuniongyrchol.

Yn gynharach eleni, roedd asiantaeth gosod wedi gwrthod rhentu eiddo i fam sengl a oedd yn gweithio oherwydd ei bod yn cael budd-dal tai er mwyn ei helpu i dalu'r rhent. Aeth ymlaen i ddwyn

achos llys yn erbyn yr asiant gosod, ac enillodd setliad y tu allan i'r llys o £2000, ar ôl dadlau bod y gwaharddiad ar fudd-daliadau yn gwahaniaethu yn erbyn menywod mewn ffordd anuniongyrchol, y maent yn fwy tebygol o fod yn hawlŵyr budd-daliadau.

Darllenwch fwy am y stori [yma](#).

Mae'n gyffredin iawn gweld eiddo rhent yn cael eu hysbysebu fel rhai 'Dim DSS'. Ystyr hyn yw na fydd landlord neu asiantaeth gosod yr eiddo yn fodlon derbyn tenantiaid sy'n cael budd-daliadau. Gellid dadlau bod 'gwaharddiad cyffredinol' ar wrthod rhentu i bobl ar fudd-daliadau yn fath o wahaniaethu anuniongyrchol.

Os byddwch yn wynebu sefyllfa debyg, dyma rai awgrymiadau ymarferol y gallent helpu.

1. A ydych chi'n gwybod pam bod y landlord yn gwrthod gosod i bobl sy'n cael budd-daliadau?

IOs ydych yn wynebu'r sefyllfa hon, efallai y byddai'n werth chweil siarad gyda'r landlord neu'r asiantaeth gosod er mwyn darganfod pam nad ydynt yn fodlon derbyn tenantiaid sy'n cael budd-daliadau. Weithiau, efallai y bydd gan landlordiaid neu asiantaethau gosod resymau dilys

dros beidio caniatáu i denantiaid ar fudd-daliadau rentu eu heiddo. Ceir rhai polisïau yswiriant a morgeisi sy'n gwahardd landlordiaid rhag gosod eu heiddo i bobl sydd ar fudd-daliadau.

Os nad ydych chi'n teimlo'n ddigon hyderus neu os nad ydych yn dymuno siarad â'r landlord neu'r asiantaeth gosod yn uniongyrchol, gallwch drefnu bod gweithiwr cymorth yn gwneud hyn ar eich rhan.

2. A oes modd i chi sicrhau'r landlord eich bod yn 'denant da'?

Weithiau, efallai y bydd landlordiaid ac asiantau gosod yn teimlo'n nerfus ynghylch rhentu eiddo i bobl ar fudd-daliadau, hyd yn oed os nad oes ganddynt unrhyw gyfyngiadau yswiriant neu forgeisi sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Efallai eu bod yn ofni na fyddwch yn gallu fforddio'r taliadau rhent.

Er na fyddai'n rhaid i chi wneud hyn mewn byd delfrydol, gallai'r canlynol dawelu meddwl eich landlord neu'ch asiant gosod.

- A oes gennych chi eirida da gan landlordiaid blaenorol? Gallai hyn gynnig sicrwydd i'r landlord/asiant gosod newydd i rentu'r eiddo i chi gan bod gennych chi brofiad o gynnal tenantiaethau llwyddiannus yn y gorffennol.
- A ydych chi'n gallu fforddio'r eiddo yr ydych yn dymuno ei rentu? Mae'n bwysig bod landlordiaid ac asiantau gosod yn hyderus y bydd unrhyw ddarpar denantiaid sydd ganddynt yn gallu talu costau ariannol yr eiddo. Meddyliwch am y ffyrdd y gallwch chi ddangos i ddarpar landlord y byddwch yn gallu fforddio'r eiddo.
- A oes gennych chi warantwr? Efallai y bydd landlordiaid ac asiantau gosod yn fodlon rhentu eiddo os byddwch chi'n gallu dangos bod gennych chi warantwr.

Sefydliadau Defnyddiol

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn cynnig cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim i bawb.

Gellir cysylltu â nhw ar **0345 404 0506**. Neu, beth am ymweld â'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth leol? Chwiliwch am eich swyddfa leol chi **yma**.

Mae Shelter Cymru yn darparu cyngor annibynnol ac arbenigol ynghylch tai yn rhad ac am ddim ar draws Cymru.

Gellir cysylltu â nhw ar **0345 075 5005**. Neu, gallwch lenwi ffurflen **ar-lein**.

Materion cyffredin i grwpiau Duon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)

Mae pobl o gymunedau BAME yn fwy tebygol o fod yn byw yn y sector tai rhent preifat nag unrhyw fath arall o dai. Felly, mae materion penodol sy'n ymwneud â thenantiaethau yn y sector tai rhent preifat yn fwy tebygol o effeithio ar bobl o'r cymunedau hyn yn hytrach na grwpiau eraill.

Rydym wedi nodi rhai problemau cyffredin y mae grwpiau BAME yn eu hwynebu yn y sector tai rhent preifat, ynghyd ag awgrymiadau ynghylch sut i'w goresgyn. Nid yw rhai o'r profiadau hyn yn rhai penodol i grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Aflonyddu ar sail fy hil

"Symudais i eiddo rhent a oedd yn cael ei hysbysebu gan asiant gosod lleol. Aeth popeth yn iawn a llwyddais i sicrhau cytundeb tenantiaeth. Dywedodd yr asiant gosod wrthyf bod y landlord yn rheoli'r eiddo a dywedodd yr hoffai'r landlord drefnu ymweliad ar ôl i mi symud i mewn er mwyn cyflwyno ei hun. Pan ddaeth i'r eiddo, dywedodd ei bod wedi cael sioc pan ddarganfu mai unigolyn du oeddwn a phe bai hi wedi gwybod, na fyddai hi fyth wedi caniatáu i mi gael y denantiaeth. Ers hynny, mae hi wedi fy ffonio sawl gwaith gan ddweud wrthyf i adael yr eiddo. Mae hi'n ffonio gan weiddi a sgrechian bob amser o'r dydd ac rydw i'n teimlo'n ofnus nawr ac nid ydw i'n gwybod beth i'w wneud. Nid oes gennyf arian i chwilio am rywle newydd gan fy mod wedi ei wario i gyd pan drefnais y denantiaeth hon. Beth ddylwn i ei wneud?"

Mae hil yn un o'r nodweddion a warchodir dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn golygu nad oes modd eich trin yn waeth oherwydd eich hil neu'ch cenedligrwydd. Os yw'ch landlord yn creu amgylchedd anghyfeillgar ac annymunol i chi oherwydd eich hil, mae hyn yn cyfateb ag aflonyddu arnoch oherwydd pwy ydych chi, ac mae hynny'n anghyfreithlon.

Dyma rai pethau y gallwch chi eu gwneud:

1. Os byddwch yn teimlo dan fygythiad, gallwch adrodd am y digwyddiadau i'r heddlu. Efallai y caiff hyn ei ddsbarthu fel digwyddiad casineb neu os cyflawnwyd trosedd, fel trosedd casineb os ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael eich targedu oherwydd eich nodwedd(ion) gwarchodedig. Ffoniwch 999 neu 101 i adrodd am y digwyddiad, gan sicrhau eich bod yn ysgrifennu

nodiadau ac yn cofnodi'r holl ddigwyddiadau, fel bod modd i'r heddlu gael dealltwriaeth well o'r sefyllfa gyfan.

2. Os ydych chi a'ch landlord wedi llofnodi cytundeb tenantiaeth, mae rheidrwydd ar y ddau ohonoch i gadw at y cytundeb. Mae hyn yn golygu na ellir dweud wrthyich i adael yr eiddo nes ar ôl i'r cyfnod penodedig ddod i ben. Mae hwn am gyfnod o 6 mis fel arfer, ond gall fod yn hwy gan ddibynnu ar amodau eich tenantiaeth.

Gorlenwi

"Deuthum i'r DU fel ceisiwr lloches a rhoddwyd statws ffoadur i mi flwyddyn yn ôl. Ers symud o lety lloches, rydw i wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i le addas i fyw. Roedd ffrind wedi rhoi enw landlord lleol i mi sy'n fodlon rhentu i ffoaduriaid ac maent wedi cytuno rhoi tenantiaeth i mi mewn tŷ a rennir. Ar y dechrau, roeddwn yn hapus iawn ond ers i mi symud i mewn, rydw i wedi sylweddoli bod gormod o bobl yn y tŷ ac nad oes digon o ystafelloedd. Mae hyn yn golygu bod y tŷ yn orlawn. Beth allaf ei wneud?"

Mae gorlenwi yn digwydd pan fydd nifer yr ystafelloedd gwely y mae eu hangen ar gyfer aelwyd yn uwch na nifer yr ystafelloedd gwely sydd ar gael. Mae

hyn yn golygu bod eich cartref yn rhy fach ar gyfer niferoedd y bobl sy'n byw yno. Gall y problemau sy'n gysylltiedig â gorlenwi fod yn ddifrifol iawn, gan gynnwys iechyd a lles negyddol.

Dosbarthir rhai fflatiau a thai a rennir fel 'Tai Amlfeddiannaeth', (HMO). Os dosbarthir eich cartref fel HMO, mae gan eich landlord gyfrifoldebau ychwanegol gan gynnwys sicrhau bod yr eiddo mewn cyflwr diogel, bod y system drydanol yn cael ei harchwilio bob 5 mlynedd ac nad yw'r eiddo yn orlawn.

Os ydych chi'n denant preifat ac mae'ch eiddo yn orlawn, gallwch:

1. Siarad â'ch landlord, gan esbonio'r effaith y mae hyn yn ei gael arnoch. Esboniwch bod materion difrifol sy'n gysylltiedig â gorlenwi a bod gan y landlord gyfrifoldeb dros sicrhau bod modd i bobl sy'n byw yn yr eiddo fanteisio ar gyfleusterau gweddus a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â thân yn cael eu lleihau. Os ydych yn gofidio ynghylch siarad gyda'ch landlord, ceisiwch gael cymorth gan elusennau lleol megis Cyngor ar Bopeth.
2. Gallwch siarad â thîm iechyd yr amgylchedd yn eich awdurdod lleol. Efallai y byddant yn asesu eich cartref i weld a oes unrhyw beryglon difrifol. Gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y peryglon y cânt eu darganfod, efallai y byddant yn dewis gweithredu yn erbyn landlordiaid y mae ganddynt eiddo peryglus.

Eiddo mewn cyflwr gwael

"Rydw i'n byw gyda fy ngŵr, ein 2 o blant a mam fy ngŵr ar hyn o bryd. Rydym yn dwli ar ein hardal ond weithiau, byddwn yn cael problemau gyda'n landlord. Ers i ni symud i mewn, rydym wedi cael problemau difrifol gyda lleithder a malltod du yn ein cegin. Mae mor wael fel bod ein bwyd yn pydru yn rheolaidd – rydym yn gwastraffu cymaint o arian! Beth allaf i ei wneud?"

Mae lleithder a malltod du yn fater cyffredin sy'n effeithio ar denantiaid sy'n

byw yn y sector tai rhent preifat. Ceir nifer o resymau dros y ffaith bod hyn yn digwydd yn eich cartref, megis dŵr yn gollwng y tu mewn neu'r tu allan, diffyg inswleiddio, awyru a/neu wresogi. Gall fod yn anodd ceisio datrys y mater hwn gyda'ch landlord, ac weithiau, galla'ch ffordd o fyw chi fod yn gwaethygu'r sefyllfa.

Os ydych yn cael problemau wrth geisio datrys y mater gyda'ch landlord, efallai y byddai'n syniad da ceisio cymorth gan elusennau tai lleol neu gan eich awdurdod lleol. Ceisiwch siarad gyda **Shelter Cymru**.

Sefydliadau Defnyddiol

Mae **Diverse Cymru** yn elusen Gymreig sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl sy'n wynebu anghydraddoldeb a gwahaniaethu.

Gellir cysylltu â nhw ar **029 2036 8888** neu thrwy anfon e-bost at info@diverse.cymru.

Mae **Race Equality First** yn elusen flaenllaw yng Nghymru sy'n ceisio mynd i'r afael â gwahaniaethu a throseddau casineb.

Gellir cysylltu â nhw ar **029 2048 6207** neu [thrwy eu gwefan](#).

Mae **Cyngor Ffoaduriaid Cymru** yn grymuso ceiswyr lloches a ffoaduriaid i greu dyfodol newydd yng Nghymru.

Gellir cysylltu â nhw ar **0300 303 3953** neu gallwch [lenwi ffurflen ar eu gwefan](#).

Mae Women Connect First yn cynorthwyo ac yn grymuso menywod a chymunedau BAME yn Ne Cymru.

Gellir cysylltu â nhw ar **029 2034 3154** neu thrwy anfon e-bost at admin@womenconnectfirst.org.uk.

A yw fy awdurdod lleol yn gallu helpu gyda phroblem tai?

Ydy!

Mae'ch awdurdod lleol yn gyfrifol am amrediad o wasanaethau gan gynnwys tai.

Dim ond yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful y mae Drysau Agored yn weithredol ar hyn o bryd, ond rydym wedi rhestru'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i alluogi tenantiaid ledled Cymru i elwa o'r canllaw hwn.

A

Dinas a Sir Abertawe - 01792 533100 Ar gyfer Canolfan Alwadau'r Amgylchedd ffoniwch 01792 635600 neu anfonwch ebost at evh@swansea.gov.uk.

B

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - 01495 311556. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ffoniwch y rhif hwn neu anfonwch ebost at: environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bro Morgannwg - 01446 700111. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd cysylltwch â'r **Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR)** 0300 123 6696.

C

Cyngor Dinas Caerdydd - I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ffoniwch y **Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR)** 0300 123 6696.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - 01495 873 552. **Thîm Iechyd yr Amgylchedd** - 01443 811379/811403

Cyngor Dinas Casnewydd - 01633 656 656. Email iechyd.amgylcheddol@casnewydd.gov.uk neu cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd a gofynnwch am dîm Iechyd yr Amgylchedd a thai.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot - 01639 686868. Environmental Health - 01639 685678

Cyngor Ceredigion - 01545 57088. Gellir cysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd gan ddefnyddio'r **ffurflen** hon neu ffonio 01545 572105.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - 01492 574000. Gellir gwneud ymholiadau rheoliadol neu ymholiadau tai ar y rhif ffôn hwn.

D

Cyngor Sir Ddinbych - 01824 706000. Gallwch hefyd ddweud wrthyn nhw am broblemau gyda chyflwr tai **ar-lein**.

F

Cyngor Sir y Fflint - 01352 703777. Cysylltwch â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ar 01352 703440.

Cyngor Sir Fynwy - 01633 644644. Gellir cysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd ar y rhif ffôn hwn.

G

Cyngor Sir Gâr - Gellir cysylltu â **Thîm Iechyd yr Amgylchedd** ar yr un rhif ffôn.

Cyngor Gwynedd - 01766 771000. Rhifau cyswllt Tîm Tai Sector Preifat Cyngor Gwynedd yw 01286 682853/01758704096 neu gellir cysylltu â nhw trwy ebostio: **tai@gwynedd.llyw.cymru**

M

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - 01685 725000. **Tîm Amddiffyn yr Amgylchedd a Gorfodaeth Tai** ebost: **gwasanaethauigwsmeriaid@merthyr.gov.uk**.

P

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - 01656 643643. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ffoniwch y **Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR)** 0300 123 6696

Cyngor Sir Penfro - 01437 764551. Cysylltwch â'r rhif hwn a gofynnwch am dîm iechyd yr amgylchedd os hoffech ddweud wrthyn nhw am eiddo mewn cyflwr gwael.

Cyngor Sir Powys - 01597 826000. Cysylltwch â'r rhif hwn a gofynnwch am dîm iechyd yr amgylchedd os hoffech ddweud wrthyn nhw am eiddo mewn cyflwr gwael.

R

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - 01443 425005. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - 01443 425005. I gysylltu â'r Tîm Tai, sy'n gallu helpu gyda safonau eiddo, cysylltwch â 01443 425777.

T

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - I gysylltu â Thîm Iechyd y Cyhoedd cysylltwch â: 01633 647622, ebost: **public.health@torfaen.gov.uk**.

W

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham - 01978 292000. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Tai, ffoniwch 01978 292040 neu anfonwch ebost at: **HealthandHousing@wrexham.gov.uk**.

Y

Cyngor Sir Ynys Môn - 01248 750057. I gysylltu â'r Tîm Gorfodaeth Tai Preifat ffoniwch 01248 752820 neu anfonwch ebost at: **iechydyramgylchedd@ynysmon.gov.uk**.

Gwneud Atgyfeiriad i Ddrysau Agored

A ydych chi wedi cwrdd â landlord neu denant yn y sector rhentu preifat sydd â phroblem ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth?

Gall hyn fod yn:

- Landlord sy'n dymuno gwybod beth y gall ddweud a beth na all ddweud mewn hysbyseb ynglŷn â'u heiddo
- Tenant sy'n meddwl bod gwahaniaethu yn ei erbyn wedi digwydd efallai, ond nid yw'n siŵr beth i'w wneud
- Landlord sydd angen rhywfaint o ganllawiau ynglŷn â gwneud addasiadau i'w eiddo ar gyfer tenant anabl
- Landlord â thenant sydd angen rhywfaint o gefnogaeth, ond nid yw'n siŵr lle i edrych am help

... neu unrhyw broblemau tebyg ... Gallwch chi eu cyfeirio nhw at Ddrysau Agored!

Rydym ni yn cynnig canllawiau, cefnogaeth a hyfforddiant, gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn y sector rhentu preifat. Gallwch chi wneud atgyfeiriad yn uniongyrchol mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Anfon neges uniongyrchol atom ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn



@OpenDoorsTP



/OpenDoorsTP

- Anfon e-bost at opendoors@taipawb.org
- Ffonio **07585 405555**
- Defnyddio'r cyfleuster sgwrsio byw ar ein gwefan www.opendoors.wales
- Ysgrifennu atom at Ddrysau Agored, Unedau 2-3, Tŷ Norbury, Heol Norbury, Caerdydd, CF5 3AS

